Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof

**Beechley Drive**
**Pentrebaen**
**Caerdydd**
**CF5 3SG**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2010**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg**
**a Hyfforddiant yng Nghymru**

Iechyd ar Waith – Cyrraedd y Nod – The Corporate Standard – Health at Work

Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd – Green Dragon Environmental Standard

Investors in People | Buddsoddwyr mewn Pobl

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof yn ysgol benodedig Gymraeg sydd wedi'i lleoli yn ardal Pentrebaen, yng ngorllewin Dinas Caerdydd. Mae dalgylch daearyddol eang gan yr Ysgol ac fe ddaw mwyafrif y disgyblion o ardaloedd Caerau a Threlái. Mae'r ardaloedd hyn yn rhai a ddisgrifir yn ddifreintiedig ac maent wedi eu nodi fel ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf.

Mae gan tua 28% o'r disgyblion yr hawl i gael prydau bwyd ysgol am ddim sy'n debyg i'r cyfartaledd ar gyfer yr awdurdod lleol (ALl) ond ychydig yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Adeg yr arolygiad, roedd 354 o ddisgyblion rhwng pedair ac 11 oed ar y gofrestr o gymharu â 323 adeg yr arolygiad diwethaf yn 2004. Mae gan saith disgybl ddatganiad o anghenion addysgol arbennig (AAA) ac mae 106 arall ar gofrestr anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yr ysgol.

Daw tua 1% o'r disgyblion o gartrefi ble mae'r Gymraeg yn brif iaith. Defnyddir y Gymraeg fel cyfrwng addysgu drwy'r ysgol, gan ychwanegu'r Saesneg fel pwnc yng nghyfnod allweddol 2, gyda'r nod o gael y disgyblion yn ddwyieithog erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol.

Mae 13 dosbarth o fewn y brif ffrwd gydag un dosbarth arall yn y ganolfan ar gyfer disgyblion ag ADY sy'n gwasanaethu holl ysgolion cynradd Cymraeg Caerdydd.

Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd ers Medi 2005 ond bu newid sylweddol yng nghyfrifoldebau staff a'r uwch dim rheoli yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Y gyllideb ysgol unigol yn 2009-2010 fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gymraeg Coed y Gof yw £3,325 sy'n cymharu gydag uchafswm o £14,067 ac isafswm o £2,787 ar gyfer ysgolion cynradd yng Nghaerdydd. Yr ysgol sydd â'r gyllideb fesul disgybl 54edd uchaf o'r 102 ysgol gynradd yng Nghaerdydd.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

**Mae perfformiad cyfredol yr ysgol yn dda oherwydd:**

- bod bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol;
- bod y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol ychwanegol yn effeithiol;
- bod ansawdd yr addysgu ar draws yr ysgol yn gyson dda; a
- chaiff iechyd a lles y disgyblion eu hyrwyddo'n effeithiol.

### Rhagolygon gwella

**Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:**

- bod yr ysgol yn adnabod a blaenoriaethu meysydd i'w gwella'n effeithiol;
- bod cynllunio datblygiad bellach yn elfen greiddiol o fywyd a gwaith yr ysgol;
- bod arweinwyr a rheolwyr yr ysgol yn frwydfrydig, yn cyfleu disgwyliadau uchel ac yn hyrwyddo ethos cynhaliol a chefnogol; a
- bod yr ysgol bellach yn gwneud defnydd effeithiol o ddata er mwyn targedu carfannau o ddisgyblion.

## Argymhellion

**Er mwyn gwella dylai'r ysgol:**

A1 barhau i godi safonau'r Gymraeg, yn enwedig sgiliau darllen, ar draws yr ysgol;

A2 barhau i wella prydlondeb disgyblion;

A3 barhau i ddatblygu strategaethau asesu ar gyfer dysgu ar draws yr ysgol; a

A4 sicrhau bod llawlyfr yr ysgol ac adroddiad blynyddol y llywodraethwyr i rieni yn cynnwys yr holl faterion statudol.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Wrth gychwyn yn yr ysgol, mae lefelau cyfartalog y plant yn isel. Er hynny, mae'r mwyafrif ohonynt yn cyflawni'r deilliannau a ddisgwylir am eu hoedran erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol ac yn cyflawni safonau sydd yn briodol i'w hoed a'u gallu. Ar y cyfan, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn mwynhau eu tasgau ac yn cyd-weithio'n hapus ac yn effeithiol gyda'u cyfoedion. Er bod y data'n dangos bod gwahaniaeth sylweddol rhwng perfformiad y bechgyn o'u cymharu â'r merched ar draws y ddau gyfnod allweddol, nid oedd hyn yn amlwg yn eu gwaith nac yn eu perfformiad yn y gwersi a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

At ei gilydd mae medrau Cymraeg disgyblion yn dda o gofio'u cyd-destun ieithyddol. Yn y Cyfnod Sylfaen maent yn deall ac yn ymateb yn dda i amrywiaeth dda o gwestiynau a chyfarwyddiadau syml. Mae'r goreuon yn dangos blaengaredd yn eu sgiliau llafar. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2 mae'r mwyafrif yn siarad yn gywir ac yn hyderus. Ar y cyfan mae medrau ysgrifennu disgyblion yn datblygu'n dda trwy'r ysgol. Nid yw cynnydd medrau darllen disgyblion gystal. Mae'r mwyafrif yn darllen yn gywir ac yn hyderus ar y cyfan, ond heb fynegiant priodol. Mae gwybodaeth y disgyblion am hanes, daearyddiaeth a diwylliant Cymru yn dda.

Mae medrau Saesneg mwyafrif disgyblion cyfnod allweddol 2 yn dda. Maent yn siarad yn hyderus, yn darllen yn gywir ac yn ysgrifennu'n ddiddorol gyda'r goreuon o'r disgyblion hŷn yn medru ysgrifennu'n helaeth, gan ddefnyddio ystod eang o gyfryngau.

Mae gan pob un o'r disgyblion fynediad teilwng i'r cwricwlwm ehangach fel y bo'n briodol i'w hoed a'u gallu.

Mae safonau'r disgyblion yn y dosbarthiadau llawer uwch na'r safonau sy'n cael eu hadlewyrchu yn y data.

Er 2007, mae cyrhaeddiad disgyblion yng nghyfnod allweddol 1 wedi dirywio ym mhob un o'r pynciau craidd a hefyd yn y dangosydd pynciau craidd (y perfformiad disgwyliedig yn y Gymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth, pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol). Mae canlyniadau'r ysgol yn gyson is na chyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg, yr awdurdod lleol a Chymru. Wrth gymharu canlyniadau'r ysgol ag ysgolion â chanran tebyg o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau bwyd am ddim mae'r ysgol yn y trydydd chwarter ar gyfer y dangosydd pynciau craidd. Mae'r canran sy'n cyrraedd lefel 3 yn y Gymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth hefyd yn is o gymharu â'r teulu o ysgolion tebyg, yr awdurdod lleol a Chymru.

Mae cynnydd wedi bod yn y dangosydd pynciau craidd (y perfformiad disgwyliedig yn y Gymraeg neu'r Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol) ar gyfer cyfnod allweddol 2 dros y tair blynedd ddiwethaf. Mae targedau'r ysgol yn rhagweld parhad pellach yn y duedd hon y flwyddyn nesaf. Mae'r perfformiad yn gosod yr ysgol yn yn seithfed o'r un ysgol ar ddeg yn y teulu ac yn uwch na chyfartaledd yr awdurdod lleol ac ysgolion Cymru. Wrth gymharu canlyniadau'r ysgol ag ysgolion â chanran tebyg o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau bwyd am ddim mae'r ysgol yn y canol ar gyfer y dangosydd pynciau craidd. Mae'r ysgol yn yr ail chwarter ar gyfer Saesneg, yn y trydydd chwarter ar gyfer y Gymraeg a mathemateg ac yn y pedwerydd chwarter ar gyfer gwyddoniaeth. Yn 2010 cyflawnodd 37% o'r disgyblion perthnasol lefel 5 yn y Saesneg sy'n uwch na'r cyfartaledd ar gyfer y teulu, yr awdurdod lleol a Chymru.

**Lles: Da**

Mae ymddygiad bron pob disgybl yn dda, gyda'r mwyafrif yn dangos cymhelliant ac maent yn falch o'u gwaith. Maent yn gwrtais, yn mwynhau dysgu ac yn cymryd rhan weithgar yn eu dysgu eu hunain. Mae bron pob disgybl yng nghyfnod allweddol 2 yn gweithio'n gynhyrchiol yn y sesiynau darpariaeth estynedig sy'n cael eu cynnal yn y prynhawniau er mwyn annog dysgu annibynnol. Mae'r mwyafrif yn ymwybodol o sut i gadw'u hunain yn iach a diogel, ac at bwy i droi os oes problem ganddynt. Mae swyddogion yr ysgol a'r 'bydis' yn gydwybodol wrth ofalu am y plant iau amser cinio.

Cyfradd presenoldeb yr ysgol yw 93%, sydd ychydig yn is na chyfradd yr awdurdod lleol a'r gyfradd genedlaethol. Digonol yw prydlondeb er bod strwythurau defnyddiol mewn lle er mwyn ceisio gwella hyn.

Mae'r cyngor ysgol yn fforwm llwyddiannus i'r disgyblion gynnig gwelliannau i'r ysgol a gweithredu syniadau i godi arian, er enghraifft, Dydd Gwener Pinc, Plant mewn Angen. Mae syniadau'r disgyblion yn cael sylw dilys gan arweinwyr yr ysgol.

Mae dalgylch daearyddol eang yr ysgol yn cwmpasu ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf ac ardaloedd difreintiedig iawn. Gwelir cynnydd yn y nifer o ddisgyblion sydd ag anghenion emosiynol a hunanwerth isel. Er hynny, mae mwyafrif y disgyblion yn falch o'u cymuned gyda nifer wrth eu bodd i weithio gydag arlunydd lleol ar brosiect i harddu'r siopau gyferbyn.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r rhan fwyaf o'r athrawon yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu symbylus a chyfoethog. Caiff gwersi eu cynllunio'n effeithiol gan ddefnyddio ystod o weithgareddau diddorol. Mae'r cwricwlwm yn diwallu anghenion grwpiau ac unigolion yn effeithiol. Er enghraifft, defnyddio themâu sydd o ddiddordeb arbennig i fechgyn, a darparu tasgau ymestynol ar gyfer y disgyblion mwy abl a thalentog. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau disgyblion yn dda ac yn cael eu hymgorffori'n gadarn ym mhrofiadau disgyblion ar draws y cwricwlwm.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer datblygu dealltwriaeth y disgyblion o’r angen i ofalu am yr amgylchedd a’r byd amrywiol a chynaliadwy y maent yn byw ynddo yn effeithiol. Gwneir hyn drwy brosiectau fel cynllun arbed dŵr, ailgylchu a thyfu llysiau yn yr ardd. Mae’r disgyblion hefyd yn edrych ymlaen at groesawu cyfeillion o dramor i’r ysgol fel rhan o gynllun Comeniws.

Mae’r ddarpariaeth a’r cynllunio ar gyfer datblygu’r Gymraeg yn dda. Mae’r ysgol yn annog y disgyblion i siarad Cymraeg ar bob cyfle posibl. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau dwyieithrwydd ac maent yn rhugl yn y Gymraeg a’r Saesneg erbyn diwedd cyfnod allweddol 2. Mae’r ysgol yn hyrwyddo’r Cwricwlwm Cymreig yn llwyddiannus ymhob agwedd o fywyd a gwaith yr ysgol.

**Addysgu: Da**

At ei gilydd, mae ansawdd yr addysgu yn rymus. Mae gan yr holl athrawon wybodaeth bynciol gynhwysfawr. Mae’r ystod o ddulliau a strategaethau addysgu yn ennyn diddordeb a chadw disgyblion ar dasg. Mae’r cyflymder yn y rhan fwyaf o wersi yn gyson briodol ac yn cadw diddordeb y mwyafrif.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer dysgu annibynnol yn effeithiol iawn. Yn nosbarthiadau cyfnod allweddol 2 cynllunir sesiynau lle bo’r athrawon yn canolbwyntio’n bennaf ar un grŵp sy’n cwblhau tasg benodol yn seiliedig ar sgiliau a gyflwynwyd yn flaenorol. Mae gweddill y dosbarth yn gweithio ar dasgau cysylltiedig annibynnol.

Mae disgyblion yn elwa o’r ffaith bod eu hathrawon yn siarad yn sensitif a chanmoladwy â nhw am ansawdd eu gwaith ac yn rhoi awgrymiadau ac anogaeth llafar da iddynt ar gyfer gwella. Mae system farcio a chynnig sylwadau adeiladol hefyd yn cefnogi’r dysgu’n effeithiol. Mae’r modd y mae’r disgyblion yn asesu eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyd-ddisgyblion, trwy wahanol ddulliau, yn effeithiol yn y rhan fwyaf o’r dosbarthiadau. Mae’r targedau personol sydd wedi eu gosod yn llyfrau’r rhan fwyaf o’r plant yn ffocysu ar feysydd i’w datblygu ymhellach ac yn annog y disgyblion i geisio gwella perfformiad eu hunain. Fodd bynnag, nid oes digon o gyfleoedd i ddatblygu’r elfen o ail-ddrafftio er mwyn codi safonau ysgrifennu’r disgyblion.

Mae’r strategaethau asesu ar gyfer dysgu a gyflwynwyd yn ddiweddar, bellach yn chwarae rôl bwysig mewn rhai dosbarthiadau ac yn dechrau dylanwadu ar safonau. Er hynny, nid yw’r strategaethau hyn yn cael eu ddefnyddio’n gyson ar draws yr ysgol.

Mae adroddiadau i rieni yn cyrraedd y gofynion statudol, gyda’r wybodaeth briodol yn ei le. Mae rhieni a gofalwyr yn teimlo’u bod yn cael gwybodaeth dda iawn am gynnydd eu plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae’r weithdrefn ar gyfer cofrestru yn gywir ac yn cwrdd â gofynion statudol. Mae gan yr ysgol strategaethau llwyddiannus i wella presenoldeb, er enghraifft gwobrau i’r

dosbarth sydd â'r presenoldeb gorau am yr wythnos. Mae absenoldeb yn cael ei fonitro'n effeithiol ar y bore cyntaf drwy system neges destun.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn effeithiol drwy weithgareddau diddorol ar draws y cwricwlwm. Caiff ddisgyblion gyfleoedd i fyfyrio ar eu bywydau, a'u hannog i fod yn onest, yn deg ac i ddangos parch tuag at eraill.

Mae bwyta'n iach a ffitrwydd yn cael eu hybu'n llwyddiannus iawn, gyda'r disgyblion lleiaf yn ymwybodol am fwydydd iach a phwysigrwydd ymarfer y corff.

Mae gan yr ysgol bolisïau a gweithdrefnau priodol ar gyfer diogelu ac mae'n bodloni'r rheoliadau'n llawn. Mae trefn asesu risg hefyd yn ei le ac yn weithredol.

Mae gweithdrefnau a systemau priodol ar gyfer adnabod, cynorthwyo a monitro disgyblion ag AAA yn cael effaith dda ar safonau. Mae gan pob disgybl sydd ar y gofrestr gynllun addysg unigol gweithredol. Mae effeithiolrwydd Y Ganolfan sy'n darparu gwasanaeth arbenigol trwy gyfrwng y Gymraeg o ansawdd uchel. Mae'r elfen o integreiddio'r disgyblion i'r brif ffrwd yn effeithiol iawn. Mae gwaith a dylanwad y cwnselydd ar y disgyblion bregus sy'n dylanwadu ar ymglymiad a safonau eu gwaith yn elfen ragorol ac yn arfer sy'n arwain y sector.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn amlwg yn rhoi pwysigrwydd amlwg ar yr elfen gynhwysol. Mae'r staff yn sicrhau cyfle cyfartal ar gyfer pob disgybl ac mae'r cwricwlwm yn hygyrch i bawb, beth bynnag fo'u rhyw, eu hil neu'u crefydd ac mae'r ysgol yn bodloni ei dyletswyddau statudol. Mae'r staff cymorth yn gweithio'n effeithiol ac yn ddiwyd gydag athrawon dosbarth i gyflwyno ystod eang o weithgareddau diddorol ar draws yr ysgol.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o'r adeilad, sy'n addas ac yn cael ei gadw'n lan a thaclus, gydag arddangosfeydd lliwgar a symbylus sy'n ysgogi'r dysgu, yn rhoi bri ar waith disgyblion a dathlu llwyddiannau'r ysgol. Dros y blynyddoedd diwethaf mae'r ysgol wedi gwneud gwelliannau priodol er mwyn cwrdd â gofynion newidiadau yn y cwricwlwm a hefyd gofynion ar gyfer yr anabl. Gwneir defnydd effeithiol o dir yr ysgol a'r goedwig gyfagos er mwyn hyrwyddo'r Cyfnod Sylfaen a datblygiad cynaliadwy. Mae digon o adnoddau o ansawdd priodol er mwyn cwrdd â gofynion y cwricwlwm. Cânt eu defnyddio'n effeithlon er mwyn cefnogi anghenion dysgu disgyblion.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan y pennaeth ddealltwriaeth gadarn o anghenion yr ysgol a'i disgyblion. Mae'n cyfleu ei weledigaeth yn glir drwy ystod o ddulliau sy'n cynnwys arddangos arwyddair a nodau'r ysgol ar draws adeiladau'r ysgol. Defnyddia ystod o ddata perthnasol i fonitro llwyddiant y strategaethau a fabwysiadwyd er mwyn gwella. Mae trefniadau datblygiad proffesiynol staff yr ysgol yn darparu cyfleoedd i briodi

anghenion datblygu unigolion yn effeithiol â'r amcanion strategol. Mae'r dirprwy a'r uwch dîm rheoli a benodwyd yn ddiweddar, yn frwdfrydig ynglŷn â chodi safonau ac yn ysgwyddo ystod o gyfrifoldebau arweiniol a rheolaethol yn effeithiol, gan gynnwys y cynllunio, dysgu, addysgu ac asesu. Mae'r staff gweinyddol yn cefnogi gweddill y staff yn effeithiol er mwyn sicrhau rhediad esmwyth yr ysgol o ddydd i ddydd.

Gwna aelodau'r uwch dîm rheoli gyfraniad arwyddocaol i arweinyddiaeth yr ysgol. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ac maent yn hyrwyddo ethos cynhaliol a chefnogol. Mae'r berthynas rhyngddynt ac aelodau eraill y staff yn seiliedig ar gydweithio a gwerthfawrogi cyfraniad y naill at y llall.

Mae aelodau'r corff llywodraethol ar y cyfan yn ysgwyddo'u cyfrifoldebau'n effeithiol ac yn deall eu rôl. Mae'r llywodraethwyr yn derbyn adroddiadau am berfformiad diwedd cyfnodau ac yn ystyried deilliannau perthnasol megis gwahaniaethau rhwng perfformiad bechgyn a merched. Mae cyfraniad y corff llywodraethol i'r broses hunan arfarnu yn ysgogi gwelliannau yn y ddarpariaeth trwy sicrhau bod trefniadau ymyrraeth mewn lle er mwyn sicrhau cynhwysiant a hefyd mynd i'r afael â'r dasg o godi safonau. Er hynny, nid yw'r llawlyfr na'r adroddiad blynyddol i rieni yn cwrdd â'r gofynion statudol yn llawn.

Mae'r ysgol yn rhoi ystyriaeth briodol i ystod eang o flaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Sefydlwyd darpariaeth y Cyfnod Sylfaen yn llwyddiannus gan sicrhau adnoddau addas a digonol sy'n cael eu rheoli'n effeithlon. Addaswyd rhannau o'r amgylchedd allanol yn effeithiol yn ddiweddar i hybu a hwyluso'r datblygiad. Mae cau'r gagendor rhwng perffromiad y bechgyn a'r merched yn flaenoriaeth gan yr ysgol ac yn derbyn sylw teilwng ac mae rhai egwyddorion o'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion megis cymunedau dysgu proffesiynol eisoes yn elfen bwysig a gweithredol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae arweinyddiaeth dda a disgwyliadau uchel y pennaeth a'r uwch dîm rheoli newydd brwdfrydig yn sicrhau bod systemau rheolaethol yr ysgol yn effeithiol. Gwelir ffocws clir ar godi safonau a gwella ansawdd addysgu yn y broses hunan arfarnu. Mae'r adroddiad hunan arfarnu o ansawdd da ac yn cynnig cyfeiriad clir sy'n adnabod a thargedu blaenoriaethau yng nghynllun datblygu'r ysgol. Mae'r ysgol yn gwrando ar farn rhieni a disgyblion wrth lunio'r ddogfen hon.

Mae gan yr ysgol drefn effeithiol a rheolaidd o arfarnu safonau a darpariaeth ar draws y dosbarthiadau. Mae'r drefn yn cynnwys archwilio a diweddaru dogfennaeth yr ysgol, monitro'r addysgu a'r dysgu trwy arsylwadau dosbarth, dadansoddi a lefelu gwaith plant.

Mae staff yr ysgol yn cydweithio'n dda fel cymuned sy'n dysgu ac maent yn rhannu arfer orau a blaengareddau addysgol diweddar yn eu cyfarfodydd staff rheolaidd. Mae rhwydweithiau effeithiol o arfer proffesiynol gydag ysgolion a phartneriaid eraill yn datblygu'n dda. Mae nifer o flaengareddau iaith a darllen a gyflwynwyd yn ddiweddar yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar safonau er enghraifft Cynllun Darllen Gwirfoddol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae’r ysgol yn gweithio’n agos ac yn effeithiol gyda nifer o bartneriaid gan gynnwys rhieni, ysgolion clwstwr Plasmawr, ysgol cyfrwng Saesneg gyfagos, meithrinfeydd cyfagos, yr awdurdod lleol, sefydliadau hyfforddiant cychwynnol athrawon a’r gymuned.

Mae’r cysylltiadau da ac agos gyda’r ysgol uwchradd sy’n hybu gwelliannau mewn safoni a chymedroli gwaith disgyblion yn dechrau cael effaith cadarnhaol ar safonau. Er enghraifft, cynhelir cyfarfodydd ar y cyd rhwng yr ysgol uwchradd a’r athrawon cynradd i ddatblygu portffolios pwnc er mwyn hybu gwell cysondeb wrth gymedroli asesiadau’r disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn y pynciau craidd. Mae gan yr ysgol drefniadau pontio effeithiol a hwylus er mwyn hyrwyddo lles disgyblion wrth drosglwyddo o’r cynradd i’r uwchradd.

Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol mewn lle er mwyn sicrhau bod disgyblion yn ymgartrefu’n dda wrth iddyn nhw ddechrau yn yr ysgol a hefyd wrth iddyn nhw drosglwyddo i’r ysgol uwchradd. Mae’n darparu gwybodaeth gynhwysfawr i rieni a gofalwyr am faterion priodol drwy lythyron a gwefan yr ysgol.

Mae’r bartneriaeth rhwng yr ysgol a rhieni yn gryf ac mae rhieni’r ysgol yn gefnogol i’r holl weithgareddau a ddarperir. Maent yn datgan eu bod yn derbyn gwybodaeth gyson am gynnydd eu plant ac yn hapus iawn gyda phob agwedd o fywyd yr ysgol. Mae cydweithio effeithiol yn bodoli rhwng yr ysgol, y llywodraethwyr a’r rhieni. Mae gan yr ysgol bartneriaeth hefyd gyda ffrindiau i’r ysgol, sy’n cynnwys nifer o ddynion sy’n mynychu’n rheolaidd er mwyn hybu sgiliau darllen a bod yn fodelau rôl i fechgyn yn y maes hwn.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae’r ysgol yn rheoli ei adnoddau’n dda a chaiff gwariant ei fonitro’n rheolaidd ac yn briodol. Mae gan yr ysgol ystod eang o adnoddau ar gyfer dysgu ac addysgu. Mae ganddi hefyd ddigon o staff profiadol a chynorthwyol. Mae’r cynorthwywyr dosbarth yn cyflawni eu rôl yn dda ac yn gwneud cyfraniad pwysig i waith a bywyd yr ysgol.

Mae’r corff llywodraethol yn cadw golwg fanwl ar y gyllideb. Maent yn gwario yn unol â blaenoriaethau cynllun datblygu’r ysgol ac yn sicrhau nad oes gormod o arian wrth gefn.

Gwna athrawon ddefnydd effeithiol o’u hamser ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu. Mae rheolaeth o’r amser hwn yn dda. Mae cyfrifoldebau a disgwyliadau clir gan yr athrawon sydd â chyfrifoldebau addysgu a dysgu (CAD). Mae gan yr ysgol drefn briodol o reoli perfformiad sy’n cynnig cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus.

Mae’r ysgol yn darparu gwerth da am arian o ystyried cynnydd y rhan fwyaf o’r dysgwyr, ynghyd â’r defnydd da a darbodus o’r cyllid.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Dychwelwyd 16 o holiaduron y rhieni ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn fodlon neu'n fodlon iawn â'r ysgol yn gyffredinol. Dywed pob un bod eu plant yn hoffi'r ysgol, eu bod yn teimlo'n ddiogel ynddi a'u bod wedi derbyn cymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuon nhw yn yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf hefyd yn credu fod ymddygiad y disgyblion yn dda, fod y disgyblion yn cael eu parchu, eu trin yn deg a'u bod yn datblygu i fod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldebau. Mae bron pob rhiant yn teimlo fod yr addysgu yn dda a'r mwyafrif yn teimlo fod eu plant yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. Fodd bynnag, mae ychydig o'r rhieni yn teimlo nad ydynt yn cael gwybodaeth gyson am gynnydd eu plant ac nad yw'r gwaith cartref sy'n cael ei osod yn adeiladu'n dda ar yr hyn y mae'r plant yn ei ddysgu yn yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o'r farn fod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda neu'n dda iawn. Mae pob un yn teimlo bod yr ysgol yn cynnig amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau.

**Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr**

Cwblhaodd 98 o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yr holiadur a siaradodd y tîm ag eraill yn ystod yr arolygiad. Mae bron pob un yn dweud eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, bod yr ysgol yn ymdrin â bwlio'n dda a bod yr ysgol yn eu dysgu sut i aros yn iach. Mae pob un yn gwybod pwy y gallant siarad â nhw os ydynt yn poeni neu os ydynt yn gweld eu gwaith yn anodd. Mae bron pob un o'r disgyblion o'r farn bod yr athrawon a'r oedolion eraill yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. Mae bron pob un hefyd yn teimlo eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol. Mae ychydig yn teimlo nad yw pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio ac mae nifer tebyg yn teimlo fod ymddygiad plant yn amharu ar eu gallu i wneud eu gwaith.

## Atodiad 2

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Huw Watkins | Arolygydd Cofnodol |
| Ann Jones | Arolygydd Tîm |
| Eirian Myfanwy Youngman | Arolygydd Lleyg |
| Elfed Williams | Arolygydd Cymheiriaid |
| Michael Hayes | Enwebai'r Ysgol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad am ddim i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost atgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod allweddol 1 | Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |